WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Colin Davies a Justine Morgan, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy’n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol a’i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 20320 500, anfonwch e-bost i: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys

Pa fath o ardal yw Rhondda Cynon Taf? 04

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi'i reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwybod beth y mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwasanaethu pobl yn dda? 11

- A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn helpu pobl mewn angen? 12
- A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn helpu pobl i ddatblygu? 16
- A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 19

Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei wneud? 22

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 23

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Rondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 25

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 27

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 28

Atodiad 5 - Amcanion Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 30

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 31

# Pa fath o ardal yw Rhondda Cynon Taf?

1 Mae ardal Rhondda Cynon Taf yn cyfrif am 2 y cant o gyfanswm arwynebedd Cymru ac yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol, cymunedau lled faestrefol a chymunedau gwledig, wedi'u lleoli ar fynyddoedd a thir ffermio iseldir. Rhondda Cynon Taf yw'r 13eg ardal awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae'r fwrdeistref sirol yn ffinio â Merthyr Tudful a Chaerffili i'r dwyrain, Caerdydd a Bro Morgannwg i'r de, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a Phowys i'r gogledd. Ei phrif drefi yw Aberdâr, Aberpennar, Pontypridd a Phorth. Mae pencadlys gweinyddol y Cyngor wedi'i leoli yng Nghwm Clydach.

2 Ar sail yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), 234,403 yw poblogaeth Rhondda Cynon Taf, sy'n golygu mai dyma'r ardal awdurdod lleol mwyaf poblog ond un yng Nghymru. Mae gan Rondda Cynon Taf gyfran ychydig yn uwch o bobl o oedran gweithio a chyfran is o bobl o oedran ymddeol na Chymru gyfan. Mae proffil oedran y boblogaeth yn dangos bod 44,335 o blant (rhwng 0 ac 16 oed) a 39,511 o bobl 65 oed ac yn hŷn yn 2009. Rhagwelir y bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu tua 5 y cant erbyn 2033.

3 Ym mis Gorffennaf 2010, dywedodd 4 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf eu bod yn ddi-waith drwy hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. 3.6 y cant oedd cyfartaledd Cymru, ac roedd gan Rondda Cynon Taf y seithfed lefel uchaf o ddiweithdra yng Nghymru.

4 Yn 2008 roedd gan Rondda Cynon Taf y gyfradd uchaf ond un o blant a oedd yn byw mewn cartrefi heb waith o blith awdurdodau lleol Cymru, cyfradd sydd wedi cynyddu'n gyson ers 2004. Yn 2009, £496 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol yn Rhondda Cynon Taf, sef y deuddegfed uchaf o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

5 Mae rhagor o wybodaeth am Rondda Cynon Taf a'r Cyngor ar gael yn Atodiad 2.

poblogaeth
234,403
/////////////

44,335 yn 0-16 oed
39,511 yn >65 oed
/////////////

enillion wythnosol
ar gyfartaledd £496
/////////////

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi'i reoli'n dda?

6 Ym mis Hydref eleni, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n nodi sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Mae Atodiad 3 yn nodi'r canfyddiadau o'r adroddiad hwnnw. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

7 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) wedi'i reoli'n dda a bod ganddo ddull gweithredu strategol clir a realistig o ran gwelliant.

8 Mae'r Cyngor wedi gwella'n sylweddol dros amser. Mae wedi rheoli ei arian yn dda a bu'n realistig o ran yr hyn y gall ei gyflawni. Canfuwyd gennym ei fod mewn sefyllfa dda i wella, ei fod yn rheoli pobl yn dda a bod ganddo ddull da o ran cynllunio strategol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor ddarparu darlun cliriach o'r hyn y mae'n ei gyflawni ar gyfer dinasyddion.

9 Ers i ni gyflawni ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Arian refeniw yw'r arian a werir gan Gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Pennodd y Cyngor gyllideb refeniw o £419 miliwn yn 2009-10. £430 miliwn oedd y gyllideb yn 2010-11. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon y Cyngor. Mae ei lythyr archwilio blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Cyngor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.

10 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio'i ddull cynllunio ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Dros yr haf ac ar ddechrau'r hydref gwnaeth y Cyngor waith pellach i asesu ei ofynion o ran adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd gofynion y gyllideb yn tyfu i £452 miliwn y flwyddyn nesaf ac yn tyfu i £463 miliwn y flwyddyn ganlynol.


11 Ar yr un pryd mae'r Cyngor yn rhagweld, gan ddefnyddio dynodiadau adnoddau gan Lywodraeth y Cynulliad, y bydd ei ffrydiau incwm yn lleihau yn y dyfodol. Roedd yn rhagweld diffyg o £20 i £23 miliwn yn 2011-12 gan gynyddu i £55 i £60 miliwn erbyn 2013-14. Dangosir hyn yn Ffigur 1 ar sail y sefyllfa waethaf.

12 Wedi hynny, yn dilyn canlyniad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad gyllidebau llywodraeth leol ar gyfer 2011-12. Bydd y Cyngor yn gweld gostyngiad o tua £5.9 miliwn (1.7 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real[1] o tua £12.5 miliwn (3.6 y cant). Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos lleihad pellach mewn termau real yn arian refeniw'r Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

13 Rheolwyd cyllideb y Cyngor yn dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gyflawni cyllidebau mantoledig ar lefel cyfarwyddiaeth a lefel gorfforaethol. Mae hyn yn sail gadarn i'r Cyngor wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.

1 Mae termau real yn golygu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith chwyddiant. Ceir sawl mesur gwahanol o chwyddiant. Daw'r ffigurau a ddefnyddir ar gyfer cyllidebau sector cyhoeddus o gyfres datchwyddo CMC y Trysorlys.

**Ffigur 1: Gwariant ac incwm a ragwelir o ran y gyllideb 2010-11 – 2013-14**
Bydd y bwlch rhwng yr hyn y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen iddo ei wario a lefel yr adnoddau a fydd ar gael iddo yn cynyddu yn y dyfodol oni bai bod y Cyngor yn cymryd camau i leihau gwariant.




Y diffyg ariannol a ragwelwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2010 ar sail y rhagfynegiadau cynnar o adnoddau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o gynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor a lleihad o 3% yn yr arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2011-2014, cyflwyniad i'r Cabinet mis Mehefin 2010.*

14 Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol os yw am sicrhau lefel yr arbedion a ragwelir ganddo, ac mae wedi dechrau gweithio ar ystod o opsiynau o fewn tri maes eang:

- gweithredu, drwy gytundeb, canlyniadau ei ymarfer gwerthuso swyddi a gostyngiadau i delerau ac amodau staff;
- cyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau presennol i wneud arbedion a gwelliannau - h.y. effeithlonrwydd pellach;
- trawsnewid y busnes - adolygu'r ddarpariaeth barhaus o wasanaethau anstatudol a'r lefel gwasanaeth a ddarperir ar gyfer gwasanaethau statudol yn cynnwys sut y caiff gwasanaethau eu darparu.

15 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion, sydd wrthi'n cael eu datblygu'n llawn, yn arwain at arbedion sylweddol o ran costau i fantoli'r gyllideb refeniw dros y tair blynedd nesaf.

16 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Mae disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau yn 2011-12 (lleihad mewn termau real o 18.5 y cant). Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14, a chaiff hyn effaith sylweddol ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwybod beth y mae angen iddo ei wneud i wella?

17 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn y mae'n ei wneud a sut mae'n ei wneud. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif bethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - ei amcanion gwella.

18 Ym mis Hydref 2009 cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Gwella a oedd yn cynnwys ei 11 o flaenoriaethau gwella ar gyfer y tair blynedd nesaf, 2010-11 i 2012-13, a chyhoeddodd y cynllun hwnnw. Daeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i rym ar 1 Ebrill 2010, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella, a'i gynlluniau i'w cyflawni, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn.

19 Ailasesodd y Cyngor ei Flaenoriaethau Gwella gan ystyried ystod o ffynonellau gwybodaeth a oedd yn cynnwys:

- adolygu a herio'r cynnydd a wnaed;
- ystyried cynlluniau gwasanaeth 3 blynedd a ddiweddarwyd sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2010-11 i 2012-13;
- ceisio barn ei ddinasyddion a rhanddeiliaid o ran yr hyn sydd bwysicaf iddynt; ac
- ystyried p'un a gyfranodd meysydd â blaenoriaeth y Cyngor at gyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y fwrdeistref sirol, fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Gymunedol.

20 Ar ôl ystyried canfyddiadau ei asesiad, daeth y Cyngor i'r casgliad bod yr 11 o flaenoriaethau gwella y cytunwyd arnynt yn 2009 yn parhau'n seiliedig ar anghenion lleol yr ardal, a phe caent eu cyflawni, y byddent yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y rhan fwyaf o drigolion y fwrdeistref sirol.

21 Yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2010, cymeradwyodd y Cyngor yr 11 o flaenoriaethau gwella ar gyfer 2010-11, a grynhowyd gennym fel a ganlyn:

- gwella dysgu a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc;
- gwella'r amgylchedd lleol i adeiladu bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach;
- cadw'r holl blant a phobl ifanc yn ddiogel, a gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n agored i niwed;
- cefnogi oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol;
- rheoli'r economi hwyrnos a lleihau achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- gwella golwg a naws canol trefi Rhondda Cynon Taf, ehangu dewis a fforddiadwyedd tai, mynd i'r afael â thlodi plant a helpu pobl leol i sicrhau'r incwm uchaf posibl, a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth;
- symleiddio nifer adeiladau'r Cyngor, gwella eu hansawdd a sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'u deiliadaeth;
- gwella ac ehangu mynediad i wasanaethau a chynyddu eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd er mwyn gwella profiad y cwsmer;
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gydag eraill i gyflawni buddiannau mwy gweladwy a mesuradwy ar gyfer cymunedau lleol;
- rheoli cyllid mewn ffordd hynod ddarbodus ac arloesol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor;
- gwella effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyfleu'r newyddion diweddaraf i bobl.

22 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei flaenoriaethau gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Credwn fod y Cyngor wedi rhannu ei gynlluniau gyda phobl leol drwy gyhoeddi crynodeb o'i flaenoriaethau gwella mewn cylchgrawn cymunedol a ddosbarthwyd i bob cartref ym mis Medi llynedd. Fodd bynnag, yn unol â deddfwriaeth, mae angen eu cyhoeddi'n gynharach ac yn fwy cynhwysfawr y flwyddyn hon i sicrhau y gall dinasyddion gael dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio'i weithgarwch arno, pa ganlyniadau buddiol y gallant eu disgwyl a sut y gallant gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn.

23 Er mwyn sicrhau bod i gynlluniau gwella'r Cyngor ffocws digonol, archwiliwyd a yw'r Cyngor yn gwybod yn glir sut y bydd dinasyddion ar eu hennill os bydd yn gwella yn y modd y mae'n bwriadu ei wneud. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae swyddogion arweiniol sydd â chyfrifoldeb am bob blaenoriaeth wella wedi datblygu cynlluniau gweithredu unigol. Mae'r blaenoriaethau gwella yn weddol glir felly dylai fod yn bosibl i'r Cyngor fesur p'un a yw'n cyflawni ei nodau ai peidio. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r blaenoriaethau mae'n fwy anodd mesur p'un a yw pobl yn cael budd ohonynt mewn gwirionedd. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn ac wedi gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y bydd yn gwerthuso cynnydd. Roedd yn ofynnol i swyddogion baratoi cynlluniau gwasanaethau 2010-11 gyda phwyslais penodol ar eglurder a ffocws, gan amlygu'r canlyniadau y mae pob cynllun yn ceisio'u cyflawni, er mwyn hwyluso proses fwy effeithiol ar gyfer craffu a monitro cynnydd.

24 Ar gyfer pob blaenoriaeth, noda'r cynlluniau'r camau gwella hollbwysig y mae'n rhaid eu cyflawni i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynghyd â'r mesurau a'r targedau i'w defnyddio i werthuso llwyddiant a dangos tystiolaeth o lwyddiant. Ar gyfer y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau, mae'r Cyngor wedi nodi dangosyddion perfformiad meintiol cenedlaethol a lleol fel mesurau allweddol o gynnydd tuag at eu cyflawni'n llwyddiannus, ac wedi'u halinio â mesurau perthnasol o'r Strategaeth Gymunedol. Ar gyfer rhai blaenoriaethau, ategir mesurau o'r fath gan ganlyniadau gwerthusiadau prosiect, arolygiadau allanol ac arolygon o farn y cyhoedd. Lle y bo ar gael, darperir data cymharol hefyd er mwyn gallu cymharu perfformiad y Cyngor â chyfartaleddau Cymru gyfan.

25 Dengys ein hadolygiad o gynlluniau gwella'r Cyngor fod Cynllun Gwella 2010-11, ar y cyfan, yn gliriach ac iddo fwy o ffocws ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r graddau y cyflawnir hyn yn amrywio ar draws yr ystod o flaenoriaethau. Er enghraifft, i fesur cynnydd tuag at gyflawni ei flaenoriaeth i ddarparu addysg o'r radd flaenaf i bawb, mae'r Cyngor wedi nodi ystod o fesurau sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a ddymunir yn y meysydd lle y mae angen iddo wella, yn ôl canfyddiadau arolygon Estyn a Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol. Yn ogystal, mae'r fenter ysgolion bro yn enghraifft lle mae'r cynlluniau'n cynnig y dylid gwerthuso llwyddiant yn benodol o safbwynt pobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, ar gyfer rhai blaenoriaethau e.e. Codi proffil amddiffyn oedolion a Chyfathrebu - mae codi ymwybyddiaeth a chyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl, y gydberthynas rhwng camau gwella hollbwysig, mesurau perfformiad a chanlyniadau amlwg yn llai clir.

26 Mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella datganedig yn cael ei fonitro gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu perthnasol fel rhan o drefniadau'r Cyngor ar gyfer Cyflwyno Adroddiadau ar Berfformiad.

27 Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Cynhaliodd y Cyngor raglen ymgynghori helaeth rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2009 i gefnogi'r broses o ddatblygu ei Strategaeth Gymunedol newydd, a dengys canlyniadau'r adborth bod 95 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r meysydd â blaenoriaeth fel y'u nodwyd yn y strategaeth ddrafft bryd hynny. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi dangos fod meysydd â blaenoriaeth presennol y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y fwrdeistref sirol, fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Gymunedol.

28 Yn ogystal ceisiodd y Cyngor farn ei ddinasyddion a'i randdeiliaid (yn cynnwys busnesau lleol, disgyblion 6ed dosbarth a'r sector gwirfoddol) fel rhan o'r broses o bennu ei gyllideb ar gyfer 2010-11. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (94 y cant) o'r farn y byddai'r amcanion gwella a ddewiswyd gan y Cyngor yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i wella canlyniadau ar gyfer pobl leol. Nodwn fod y Cyngor wedi lansio ei Ymgynghoriad ar Gyllideb 2011-12 a'i fod wedi estyn gwahaoddiad i ygynghoreion wneud sylwadau o ran p'un a fyddai parhau i ganolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth allweddol hyn gan y Cyngor yn helpu i wella ansawdd eu bywydau a bywydau eu teuluoedd yn 2011 a thu hwnt. Gwahoddir ymgynghoreion hefyd i awgrymu meysydd penodol eraill y dylai'r Cyngor ystyried rhoi blaenoriaeth iddynt.

29 Yn ein gwaith gwnaethom ystyried pa mor dda y mae cynlluniau'r Cyngor yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Canfuwyd gennym fod y Cyngor yn gweithio'n galed i gydgysylltu ei waith cynllunio strategol i lefel uchel, gan ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng lefelau gwahanol o gynllunio ac ar draws meysydd gwasanaeth. Mae trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor yn llywio ac yn cefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau. Lle bod canlyniadau ariannol yn deillio o gamau gwella, cânt eu hasesu'n gadarn a'u hymgorffori mewn cynlluniau busnes, a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf tair blynedd, fel y bo'n briodol.

30 Mae angen i bob Cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Canfuwyd gennym fod y Cyngor yn gwneud defnydd helaeth ac effeithiol o system Ffynnon ar gyfer rheoli gwybodaeth electronig i gasglu a dadansoddi ei ddata perfformiad. Rydym yn fodlon bod trefniadau priodol ar waith, ar y cyfan, a gynlluniwyd i sicrhau ansawdd a chywirdeb data perfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nododd ein harchwiliad o'r Dangosyddion Cenedlaethol Strategol a gofnodwyd gan y Cyngor ar gyfer 2009-10 ddiffygion mewn perthynas â'r systemau sy'n cefnogi dau o'r dangosyddion addysg. Bydd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn y systemau er mwyn sicrhau bod y dangosyddion wedi'u datgan yn deg.

31 Wrth graffu ar wasanaethau, caiff aelodau adroddiadau chwarterol sy'n darparu gwybodaeth fanwl am berfformiad gwasanaethau a pherfformiad ariannol, ynghyd â chrynodeb o'r materion allweddol ac eithriadau. Mae hyn yn caniatáu i aelodau ganolbwyntio ar feysydd sy'n tanberfformio ac yn rhoi cyfle i drafod yn fwy penodol pam y mae gwasanaethau yn tanberfformio.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwasanaethu pobl yn dda?

32 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd yn Rhondda Cynon Taf. Credwn, gyda'i gilydd, eu bod yn cwmpasu'r prif bethau y mae cynghorau yn eu gwneud. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

33 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar ba mor dda mae'r Cyngor yn ei wneud hyd yn hyn mewn perthynas ag un amcan o dan bob un o'r agweddau hyn, er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor, ac eraill, mewn gwell sefyllfa i ddeall i ba raddau y mae perfformiad wedi gwella. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:

- cynorthwyo oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol;
- darparu addysg o'r radd flaenaf i bawb;
- sicrhau bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach.

34 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol. Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

35 Yng Nghymru ceir hefyd yr angen i wasanaethu dinasyddion a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n briodol i anghenion y gymuned. Yn 2009, roedd 17 y cant o boblogaeth Rhondda Cynon Taf yn gallu siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig yn llai na 26 y cant o boblogaeth Cymru, er bod nifer y disgyblion a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf yn uwch na chyfartaledd Cymru.

36 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor o ran sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i ysgogi gwelliant.

37 Canfu'r Bwrdd fod y Cyngor ond yn cydymffurfio'n rhannol â'i Gynllun Iaith Gymraeg mewn perthynas â dogfennaeth etholiadol. Canfu'r Bwrdd hefyd fod y cynnwys cyfrwng Cymraeg ar wefan y Cyngor yn llai cynhwysfawr na'r cynnwys Saesneg, ond roedd yn gwneud cynnydd yn unol ag ymrwymiadau ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn gwella ei brosesau ar gyfer casglu data ar sgiliau iaith Gymraeg.

38 Disgwylir i'r Cyngor ddatblygu Strategaeth Sgiliau Iaith dros y misoedd nesaf i alluogi iddo gynllunio ei wasanaethau Cymraeg dros y tymor canolig a'r hirdymor.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn helpu pobl mewn angen?

39 Mae lefelau uchel o amddifadedd yn bodoli yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r disgwyliad oes yn is na'r cyfartaledd. Y disgwyliad oes i fenywod yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2007-09 oedd 80.0 mlynedd, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 81.6 mlynedd. Y disgwyliad oes i ddynion oedd 75.5 mlynedd, sydd hefyd yn is na chyfartaledd Cymru o 77.2. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf.

40 Ceir hefyd lefelau uchel o achosion o feichiogi ymysg merched yn eu harddegau. Yn 2007, roedd gan drigolion Rhondda Cynon Taf y lefel uchaf ond un o achosion o feichiogi ymysg merched yn eu harddegau, gyda 57.2 o ferched yn beichiogi fesul 1,000 o ferched 15 i 17 oed; cyfradd gyfartalog Cymru oedd 44.9.

41 Awgrymodd Arolwg Iechyd Llywodraeth y Cynulliad o oedolion ar gyfer 2007-08 bod iechyd meddwl a lles pobl yn Rhondda Cynon Taf yn waeth na chyfartaledd Cymru.

42 Mae'r lefel o ddigartrefedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd, a chyfradd y bobl a gafodd eu derbyn fel unigolion digartref yn Rhondda Cynon Taf yn 2008-09 oedd y gyfradd isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Ers 2003-04 mae'r gyfradd ddigartrefedd wedi lleihau'n sylweddol ac wedi parhau'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru bob blwyddyn. Ond, er bod cyfradd y tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu ers 2007-08, mae'n parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru.

## A yw Cyngor Rhondda Cynon Taf yn helpu oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol?

43 Rydym o'r farn bod helpu oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn amcan gwella priodol ar gyfer y Cyngor. Mae hyn oherwydd bod poblogaeth y Cyngor yn cynnwys nifer sylweddol o bobl hŷn, a rhagwelir y bydd y nifer hwn yn cynyddu yn y dyfodol. Mae'r amcan gwella wedi'i gysylltu'n glir â themâu strategaeth gymunedol y Cyngor a'i Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

44 Prif elfennau'r amcan gwella yw:

- hybu annibyniaeth ac ansawdd bywyd drwy barhau i wella gwasanaethau i helpu oedolion a phobl hŷn i fyw yn eu cartrefi;
- atal achosion diangen o dderbyn cleifion i'r ysbyty a hwyluso'r broses o'u rhyddhau'n amserol;
- codi proffil amddiffyn oedolion er mwyn gwella'r cyfleoedd i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed;
- cefnogi'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofal.

45 Bu hybu annibyniaeth ac ansawdd bywyd drwy barhau i wella gwasanaethau i helpu oedolion a phobl hŷn i fyw yn eu cartrefi yn flaenoriaeth i'r Cyngor ers y llynedd. Gwnaed cynnydd da i hybu annibyniaeth, er enghraifft:

- mae nifer y bobl sy'n aros am asesiad o'u hanghenion i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi yn lleihau;
- mae nifer y grantiau cyfleusterau i'r anabl a gwblhawyd i ariannu lifftiau grisiau, darparu ystafelloedd ymolchi hygyrch a gosod canllawiau wedi cynyddu dros y 3 blynedd

diwethaf, ac mae'r Cyngor ymhlith y 25 y cant sy'n perfformio orau o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru;

- darparwyd teleofal arbenigol i fwy o bobl hŷn;
- mae mwy o bobl gyda dementia wedi derbyn technoleg a gynorthwyir;
- mae nifer y bobl sy'n derbyn taliad uniongyrchol i dalu am gymorth yn y cartref wedi cynyddu, gan roi mwy o ddewis i ddinasyddion o ran sut y maent yn derbyn gofal, cymorth ac yn cynnal eu hannibyniaeth.

46 Roedd gan Rondda Cynon Taf y ganran uchaf yng Nghymru o oedolion rhwng 18 a 64 oed a oedd yn derbyn cymorth yn y gymuned yn ystod 2009/10, ac roedd y gyfradd ar gyfer pobl dros 65 oed ymhlith y 25 y cant o awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru.

47 Fodd bynnag mae rhai camau gweithredu hollbwysig i gyflawni cerrig milltir allweddol yn dibynnu ar sefydliadau eraill, er enghraifft mae hyrwyddo gwasanaethau gofal canolraddol ymhellach yn galw am gydweithredu â Bwrdd Iechyd Cwm Taf. Mae'n bwysig sicrhau bod blaenoriaethau'r ddau sefydliad yn gyson â'i gilydd os ydynt am eu gwireddu eleni.

48 Yn yr un modd, mae atal achosion o dderbyn cleifion i'r ysbyty yn ddiangen a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty yn galw am gydweithredu â Bwrdd Iechyd Cwm Taf i gyflawni nifer o'i amcanion gwella hollbwysig. Ni lwyddodd perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal i gyrraedd y targedau y llynedd, ac mae hwn yn faes y mae angen i Gyngor a Bwrdd Iechyd Cwm Taf ei wella.

49 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Adolygiad o'r trefniadau i Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed yn 2010, ac mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad hwn. Roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth strategol a statws y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion ymhlith partneriaid a gweithwyr proffesiynol. Mae'n amlwg yn briodol bod y Cyngor wedi nodi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed fel blaenoriaeth gorfforaethol. Fodd bynnag, mae'r camau gwella hollbwysig y cytunwyd arnynt gan y Cyngor yn canolbwyntio ar hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag oedolion sy'n agored i niwed i drigolion Rhondda Cynon Taf. Er bod hyn yn fuddiol, mae'n llai clir p'un a gynlluniwyd y camau gwella hyn i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan AGGCC, neu a gawsant eu blaenoriaethu am resymau eraill. Yn ogystal, y llynedd canolbwyntiodd y Cyngor ar ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac nid yw'n glir pam nad yw hyn yn flaenoriaeth bellach na ph'un a yw'r Cyngor wedi cyflawni'r amcanion a fwriadwyd.

50 Bu cefnogi'r sawl sydd â chyfrifoldebau gofal yn flaenoriaeth i'r Cyngor ers 2009-10 ac mae'r Cyngor yn perfformio'n dda o ran asesu anghenion gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau i oedolion. Ceir eglurder a dilyniant yn y camau gwella hollbwysig mewn perthynas â chefnogi'r sawl sydd â chyfrifoldebau gofal. Y llynedd mapiodd y Cyngor anghenion gofalwyr, ac eleni mae'n anelu at weithredu'r hyn y dywedodd gofalwyr bod ei angen arnynt.

51 Mae mesurau perfformiad wedi'u cynnwys yng nghynllun busnes y gwasanaeth i bobl hŷn a'r sawl sydd ag anabledd corfforol yn erbyn pob un o elfennau'r amcan gwella. Mae hyn yn golygu ei bod yn glir ac yn hawdd deall yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud a sut y bydd yn mesur hyn, er bod y mesurau yn tueddu i ganolbwyntio ar yr hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud, yn hytrach na sut y bydd pobl ar eu hennill, a dim ond 5 o'r 15 mesur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Er enghraifft, nid yw'r Cyngor yn glir o ran faint o bobl yr oedd angen Grant Cyfleusterau i'r Anabl arnynt ac a hawliodd y grant ond na ddyfarnwyd grant iddynt gan nad oedd digon o adnoddau i fodloni'r galw.

52 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

53 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn ceir cynllun arolygu ac adolygu unigol ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

54 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd, a'r nod yw pennu llinell sylfaen yn seiliedig ar berfformiad cyfredol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

55 Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn dangos arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf o lefel y Cyfarwyddwr i lefel rheolwyr tîm. Mae'r cynllun corfforaethol yn darparu strwythur cadarn a cheir trefniadau rheoli ariannol da rhwng ei wasanaethau a'r ganolfan gorfforaethol. Mae'r Cyngor wedi parhau â'i strategaeth gwaith cymdeithasol 'datblygu mewnol' ac mae'n darparu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ar bob gradd. Y meysydd gwella ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol yw datblygu arbenigedd o ran comisiynu a gwella ansawdd ei strategaethau comisiynu a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau wrth i reolwyr gyflwyno adroddiadau.

56 Mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd drwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amrywiol ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr. Caiff asesiadau eu cwblhau ar amser ac mae gweithio mewn partneriaeth wedi gwella gwasanaethau. Yn ogystal mae'r Cyngor yn defnyddio 'ffactorau llwyddiant hanfodol' i wella perfformiad. Mae gwasanaethau anableddau dysgu ac iechyd meddwl y Cyngor yn helpu pobl i fyw'n annibynnol ac mae'r Cyngor o ddifrif o ran ei gyfrifoldebau i ymateb i honiadau o gam-drin. Enwebwyd gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer gwobrau cenedlaethol, gan sicrhau lle ar y rhestr fer.

57 Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor foderneiddio ac ailgyflunio ei wasanaethau i oedolion ymhellach er mwyn ehangu'r dewis o wasanaethau ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr a darparu mwy o fynediad i wasanaethau ataliol. Mae angen gwella amserlenni ac ansawdd asesiadau ym mas gwasanaethau anableddau dysgu. Dylai'r Cyngor hefyd ddatblygu mwy o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur gwelliannau o ran ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr a rhoi fframwaith sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau cysondeb o ran ymarfer ar draws gwasanaethau i oedolion.

58 Mae diogelu plant yn flaenoriaeth i'r Cyngor a rhoddir ystyriaeth dda i gynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau plant ac mae'r trefniadau wedi'u hymgorffori'n dda. O ran gwasanaethau plant, cafwyd perfformiad da yn gyson o ran ansawdd y wybodaeth sydd ar gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Cyflawnwyd gwelliant o ran lefel y plant y cafodd eu cynllun diogelu ei adolygu ar amser. Yn ogystal, nodwyd bod y trefniadau sydd ar waith i gefnogi gofalwyr ifanc yn gryfder.

59 Mae'r meysydd ar gyfer gwella o ran gwasanaethau plant yn cynnwys amseroldeb ac ansawdd asesiadau a darparu gwybodaeth hygyrch ar gyfer plant o bob oedran a phlant sydd â phob math o anghenion cyfathrebu. Yn ogystal, dylai sicrhau bod pob achos yn cael ei ddyrannu i weithiwr cymdeithasol fod yn flaenoriaeth allweddol, ac mae angen cynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol. Dylai addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i'r sawl sy'n gadael gofal barhau i fod yn flaenoriaeth, a dylai'r Cyngor barhau i wella ansawdd a pherfformiad ei waith rheoli achosion.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn helpu pobl i ddatblygu?

60 Yn Rhondda Cynon Taf ceir tair ysgol feithrin, 117 ysgol gynradd, 19 ysgol uwchradd a phedair ysgol arbennig. Mae'r ysgolion hyn yn gwasanaethu cyfanswm poblogaeth o 39,500 o ddisgyblion - sef y nifer fwyaf ond un yng Nghymru.

61 Mae'r Cyngor yn wynebu her ariannol i sicrhau bod ei adeiladau ysgol yn addas at y diben gan fod hanner ei ysgolion wedi'u hadeiladu cyn yr Ail Ryfel Byd, ac mae angen cynyddol i atgyweirio'r stoc sylweddol o adeiladau o'r 1960au.

62 Ceir pwysau amrywiol o ran lleoedd mewn ysgolion ar draws y Cyngor a ph'un a ddarperir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg. Mae poblogaeth ardaloedd y Cymoedd yn heneiddio ac yn lleihau'n gyflym, gan achosi lleoedd gwag mewn ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ond yn ne'r Sir, ar hyd coridor yr M4, bu twf o ran tai newydd, ac o ganlyniad mae diffyg lleoedd mewn rhai ysgolion. Ceir galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen moderneiddio ysgolion i ymateb i rai o'r heriau hyn.

63 Cyfran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim yn Rhondda Cynon Taf yw 22.9 y cant, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18.9 y cant. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 (blwyddyn 6) wedi cynyddu ers 1999 ac roedd yn 74.1 y cant yn 2009. Ond roedd hyn dal ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 77 y cant. Mae canran yr oedolion o oedran gweithio yn Rhondda Cynon Taf heb unrhyw gymwysterau wedi lleihau'n raddol ers 2001, er bod y ffigur, sef 18 y cant, yn gymharol uchel o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 14 y cant.

64 Mae Estyn, sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â chyfarwyddwyr addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

65 Dywedodd Estyn wrthym fod safon gyffredinol addysg yn Rhondda Cynon Taf yn dda. Y 'dangosydd pynciau craidd' yw cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn ystod o bynciau[2]. Yng nghyfnod allweddol 2 (blwyddyn 6) a chyfnod allweddol 3 (blwyddyn 9) bu gwelliant cyffredinol o ran canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel hon. Mae perfformiad yn y cyfnodau allweddol hyn yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig o gymharu ag ysgolion ac awdurdodau tebyg ledled Cymru. Mae perfformiad yn arbennig o gryf yng nghyfnod allweddol 4 (blwyddyn 11) lle mae canlyniadau'r rhan fwyaf o ddangosyddion wedi gwella ar gyfradd gyflymach na chyfradd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn well na'r cyfartaledd o bell ffordd o gymharu ag ysgolion tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 (blwyddyn 2) wedi dirywio dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n is na'r lefelau disgwyliedig.

2 Y pynciau hyn yw Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth gyfunol. Mae'r dangosydd yn cynnwys plant 7, 11 a 14 oed.

66 Mae canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ymhlith y 25 y cant o awdurdodau Cymru sy'n perfformio waethaf, ac mae tueddiadau'n dangos perfformiad gwael yn y maes hwn dros y 3 blynedd diwethaf. Mae maint dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd yn gymharol uchel hefyd. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol mai nifer fach o ddisgyblion a gaiff eu gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd.

67 Mae'r ffigurau cyrhaeddiad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn debyg i Gynghorau eraill ac mae grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rheini sydd ag anghenion ychwanegol, yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig ar y cyfan.

68 Mae canran y disgyblion sy'n parhau mewn addysg llawn amser yn 16 oed yn cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg. Cyrhaeddodd y ganran sy'n gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig gyfartaledd Cymru yn 2008, er iddo fethu gwneud hynny yn 2009.

## A yw'r Cyngor yn darparu addysg o'r radd flaenaf i bawb?

69 Mae darparu addysg o'r radd flaenaf i bawb yn amcan gwella priodol a phwysig ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Mae'r lefel uchel barhaus o oedolion heb unrhyw gymwysterau yn rhwystr i ddod o hyd i gyflogaeth addas, sy'n galluogi symudedd cymdeithasol ac yn cynyddu cyfleoedd i bawb. Mae gan yr amcanion gwella a nodwyd gysylltiadau clir â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad Estyn ym mis Ionawr 2010, y cyfeirir ato isod.

70 Elfennau allweddol yr amcan yw:

- sicrhau bod dysgwyr yn Rhondda Cynon Taf yn cyflawni eu potensial ymhob cyfnod allweddol;
- gwneud y defnydd gorau posibl o adeiladau ysgol i wella a chefnogi'r profiad addysgol i bawb;
- gwella safonau a gwasanaethau drwy wneud defnydd mwy effeithiol o ddata, rhwydweithiau a gweithio cydgysylltiedig.

71 Mewn adroddiad ar yr awdurdod addysg lleol a gyhoeddwyd gan Estyn ym mis Ionawr 2010 (www.estyn.gov.uk) barnwyd bod yn Cygor yn 'dda' ar y cyfan gan fod plant a phobl ifanc yn cyflawni safonau da, ac yn gwneud cynnydd da i'r cam nesaf yn eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fodd bynnag, cafodd rhai agweddau ar berfformiad y Cyngor eu beirniadu gan Estyn, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb, rhannu data, adeiladau ysgol amhriodol a lleoedd gwag mewn ysgolion. Mae mynd i'r afael â lleoedd gwag mewn ysgolion yn sicrhau y gellir rhyddhau adnoddau i wella adeiladau ysgol mewn mannau eraill. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cyfleusterau ysgol gwael yn cael effaith negyddol ar berfformiad disgyblion a myfyrwyr yn eu hastudiaethau. Mae adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o wariant ysgolion hefyd yn awgrymu bod cysylltiad rhwng buddsoddi mewn adeiladau ysgol a chyrhaeddiad addysgol (www.wao.gov.uk).

72 Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Estyn a cheir cysylltiad clir rhwng y cynllun gweithredu hwn a'r amcan gwella, ac mae'n glir ac yn hawdd deall yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud a sut y bydd gwelliant yn digwydd. Mae mesurau perfformiad wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu addysg y Cyngor, a cheir ymdrech ag iddi fwy o ffocws i godi

lefelau presenoldeb ysgolion drwy rannu data yn well a hyrwyddo presenoldeb da a dysgu a rennir yn effeithiol.

73 Mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni gwaith arloesol a llwyddiannus drwy roi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae rhaglen lwyddiannus E3+ y Cyngor yn darparu cyfleoedd dysgu 'y tu allan i oriau ysgol' ar gyfer pobl ifanc drwy gydweithio â'r gwasanaeth ieuenctid, ysgolion, y sector gwirfoddol a'r heddlu. Roedd digwyddiad enghreifftiol diweddar a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru 'In Tune with Youth' yn gyfle i arddangos talentau artistig dros 650 o bobl ifanc sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf.

# A yw Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

74 Cyfradd droseddu Rhondda Cynon Taf yw 76.98 fesul 1000 o'r boblogaeth, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Difrod troseddol (25 y cant) a thrais yn erbyn yr unigolyn (21 y cant) yw cyfran uchaf y troseddau hyn. Mae'r gyfradd droseddu yn Rhondda Cynon Taf wedi lleihau i ychydig yn fwy na thri-chwarter y lefel yn 2003. Roedd y gyfradd marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru yn 2008-09.

75 Mae'r ffyrdd mewn cyflwr cyffredinol wael. Mae cyflwr y prif ffyrdd dosbarth A, y ceir 164 milltir ohonynt, yn wael ar y cyfan, a nhw yw'r gwaethaf yng Nghymru o ran hyn.

## A yw'r Cyngor yn helpu i greu bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach?

76 Nododd y Cyngor fod sicrhau bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach yn flaenoriaeth allweddol ac yn bwysig i bobl Rhondda Cynon Taf, fel y nodwyd drwy ymgynghori â'i ddinasyddion. Mae'n unol â themâu'r Strategaeth Gymunedol ac yn cyfrannu at gyfyngu effaith newid yn yr hinsawdd.

77 Elfennau allweddol amcan y Cyngor yw:

- lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, i 56 y cant o gyfanswm y gwastraff i ddechrau erbyn 2010-11 a chynyddu maint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio;
- sicrhau strydoedd glanach drwy'r flwyddyn, gan sicrhau ffocws parhaus ar orfodi llym o ran taflu sbwriel, graffiti, tipio anghyfreithlon a gosod posteri yn anghyfreithlon;
- priffyrdd sy'n lân, sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n ddiogel ar gyfer pob defnyddiwr;
- parciau sy'n hygyrch i bawb, sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, sy'n darparu ystod o gyfleusterau y mae defnyddwyr am eu cael ac a ddarperir mewn partneriaeth â dinasyddion.

78 Mae'r Cyngor yn darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau casglu gwastraff gyda lefelau boddhad uchel ymhlith y cyhoedd, sydd fel arfer yn uwch na 90 y cant. Fodd bynnag, methodd y Cyngor â chyflawni ei darged ar gyfer 2009-10 i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, ac mae ei berfformiad mewn perthynas â'r dangosydd hwn ymhlith y 25 y cant gwaethaf o gymharu â'r holl awdurdodau yng Nghymru. Mae'n bosibl bod hyn yn ychwanegu at y risg y gallai'r Cyngor fod yn torri cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar y defnydd o dirlenwi, a allai arwain at gosbau ariannol. Er mwyn gwella perfformiad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gynyddu faint o wastraff a ailddefnyddir/ailgylchir ganddo a/neu faint o wastraff a gaiff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol. Ni chyflawnodd y Cyngor y targed o 40 y cant ar gyfer ailgylchu/compostio a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i'w gyflawni gan bob Cyngor yn 2010.

79 Yn 2009-10 perfformiodd y Cyngor yn dda o ran ailddefnyddio/ailgylchu gwastraff, gyda'i berfformiad ymhlith y 25 y cant gorau o blith awdurdodau Cymru. Fodd bynnag, nododd y Cyngor bod lefelau cyfranogiad mewn ailgylchu ymyl y ffordd wedi aros yr un fath, ac yn unol â hynny mae'n bwriadu ymgysylltu'n fwy â thrigolion er mwyn sicrhau gwelliant pellach. Mae'r Cyngor wedi defnyddio marchnata a chyhoeddusrwydd yn llwyddiannus mewn perthynas â threfniadau rheoli gwastraff da, ac mae'n bwriadu cynnal ystod bellach o fentrau yn 2010-11 yn cynnwys ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth, parhau â'r ymgyrchoedd 'Love Where You Live', yr 'Environvision song quest', y pentref diwastraff a phrosiectau ysgol amrywiol.

80 I'r gwrthwyneb, caiff canran isel o wastraff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol, sy'n golygu bod canrannau uchel o wastraff bioddiraddadwy yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Ar gyfer 2009-10 mae perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r dangosyddion hyn yn y chwartel isaf o gymharu â phob awdurdod yng Nghymru. Oherwydd natur drefol y fwrdeistref sirol mae llai o wastraff gwyrdd ar gael na mewn ardaloedd mwy gwledig. Yn unol â hynny, mae'r Cyngor yn targedu'r ffrwd gwastraff bwyd, lle mae ei wasanaethau casglu yn gwasanaethu 45,000 o gartrefi, ond dim ond tua 23,000 sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn caffael mwy o gerbydau casglu arbenigol ac mae'n ceisio ymestyn ei wasanaeth casglu gwastraff bwyd i 80,000 eiddo erbyn mis Mawrth 2011.

81 Mae'r Cyngor wedi nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn glir, ac erbyn pryd y mae'n bwriadu eu cymryd, er mwyn cyflawni'r amcan gwella o leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Nodwyd mesurau perfformiad priodol, yn cynnwys dangosyddion a bennwyd yn genedlaethol ac yn lleol, ynghyd â thargedau i'w cyflawni a llinellau sylfaen i fesur perfformiad yn eu herbyn. Ceir hefyd cysylltiadau â Mesurau'r Strategaeth Gymunedol.

82 Mae sicrhau bod strydoedd Rhondda Cynon Taf yn lân drwy gydol y flwyddyn yn amcan gwella dilys sy'n ceisio gwella ansawdd bywydau pobl leol. Yn ystod 2009-10 cyflawnodd y Cyngor ei darged ei hun a chyrhaeddodd lefel cyfartaledd Cymru drwy sicrhau bod 94.8 y cant o strydoedd, priffyrdd a thir perthnasol o safon glendid uchel neu dderbyniol.

83 Cyflawnodd y Cyngor ei dargedau ei hun yn ystod 2009-10 o ran clirio achosion o dipio anghyfreithlon a glanhau graffiti drwy gadw gwyliadwriaeth barhaus a thargedu ardaloedd lle y mae problemau'n codi'n aml gan ddefnyddio mesurau ataliol a gweithgarwch gorfodi. Mae hefyd wedi cynnal rhaglen ddwys o lanhau strydoedd ac wedi cynyddu cyfranogiad drwy ei gynllun gwirfoddoli, sef y fenter 'Trefi Taclus'. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo brogarwch a chyfrifoldeb drwy barhau â'r gwobrau 'Love Where you Live' i gydnabod ymdrechion dinasyddion i wella'r amgylchedd lleol. Yn ystod chwarter cyntaf 2010-11 llwyddodd y Cyngor i gynnal y gwelliant o ran sicrhau strydoedd glanach drwy'r flwyddyn, gan gyrraedd y targed o ran pob un o'r dangosyddion perfformiad perthnasol.

84 Mae'r Cyngor wedi nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn glir, ac erbyn pryd y mae'n bwriadu eu cyflawni, er mwyn cyflawni'r amcan gwella o sicrhau bod strydoedd Rhondda Cynon Taf yn lân drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd mesurau perfformiad priodol, yn cynnwys dangosyddion a bennwyd yn genedlaethol ac yn lleol, ynghyd â thargedau i'w cyflawni a llinellau sylfaen ar gyfer mesur perfformiad yn eu herbyn. Ceir hefyd cysylltiadau â Mesurau'r Strategaeth Gymunedol.

85 Mae ffyrdd Rhondda Cynon Taf mewn cyflwr gwael, ar y cyfan, a phrin yw'r arian a dyrannwyd i'w fuddsoddi mewn cynnal a chadw priffyrdd. Mae Rhaglen Gyfalaf tair blynedd y Cyngor ar gyfer 2010-13 yn nodi cyfanswm cyllideb o £5.2 miliwn i'w wario ar ei ffyrdd a strwythurau cysylltiedig (e.e. pontydd, cwlfertydd ac ati). Mae'r gyllideb ar gyfer 2010-11 bron yn £3 miliwn, ac mae'r gwariant a gyllidwyd yn lleihau i £1.3 miliwn ac i lai na £1 filiwn yn y ddwy flynedd ddilynol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad a ragwelir yn yr arian cyfalaf sydd ar gael dros y tymor canolig, a chydnabyddir nad yw hyn yn ddigon i fynd i'r afael ag ôl-groniad y Cyngor o waith cynnal a chadw priffyrdd. Gwaethygodd cyflwr ffyrdd Rhondda Cynon Taf oherwydd tywydd oer garw ar ddechrau 2010, a chytunodd Aelodau i ariannu buddsoddiad ychwanegol o £500,000 yn y maes hwn.

86 Mae'r Cyngor yn nodi bod ei briffyrdd dosbarth A mewn cyflwr gwael ar y cyfan, ac nid yw'n cyrraedd ei dargedau ei hun mewn perthynas â'r dangosydd hwn, a Rhondda Cynon Taf yw'r Cyngor sy'n perfformio waethaf yng Nghymru yn hyn o beth. Yn yr un modd mae cyflwr ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd a ffyrdd dosbarth B yn wael ac maent yn y chwartel isaf ledled Cymru.

87 Felly mae amcan gwella'r Cyngor, sef sicrhau priffyrdd sy'n lân, sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n ddiogel ar gyfer pob defnyddiwr, yn ddilys ac yn gyfreithlon. Y cam gwella hollbwysig a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer 2010-11 yw datblygu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a phennu'r gofynion gofynnol, y gofynion sy'n addas at y diben a'r gofynion gorau posibl erbyn mis Mawrth 2011. Yn amlwg ni fydd y cam gweithredu hwn ynddo'i hun yn sicrhau gwelliannau gweladwy o ran cynnal a chadw'r priffyrdd. Fodd bynnag, dylai hyn alluogi'r Cyngor i bennu targedau mwy ystyrlon a chyfleu ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn gliriach i ddinasyddion, a'r gwelliannau gweladwy y gallant ddisgwyl eu gweld yng Nghynllun Gwella'r flwyddyn nesaf.

88 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau grantiau trafnidiaeth gan Lywodraeth y Cynulliad i ariannu dwy raglen buddsoddi cyfalaf fawr i wella ei systemau ffyrdd - sef Ffordd Liniaru'r Porth a Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys. Mae ffordd liniaru'r Porth/y Rhondda Isaf wedi gwella mynediad i'r A470 ar gyfer dinasyddion a datblygiadau diwydiannol newydd posibl; wedi lliniaru tagfeydd traffig o fewn cymunedau'r Rhondda ac wedi darparu llwybrau bws a llwybrau beicio ychwanegol ar gyfer dinasyddion. Enillodd y Cyngor wobr Adeiladu Arbenigrwydd ar gyfer ffordd Liniaru'r Porth yn 2008 i gydnabod ei ddull arloesol o ran caffael, peirianneg gwerth a buddiannau cyflogaeth leol i'r gymuned.

89 Mae cwblhau Ffordd Osgoi newydd Pentre'r Eglwys, sydd werth £90 miliwn ac sy'n 7.5 cilomedr o hyd wedi gwella'r cysylltiadau o'r A4119/M4 yn Llantrisant i'r A470 a Phontypridd, gan liniaru rhywfaint ar dagfeydd traffig yng nghymunedau lleol yn Nhonteg, Pentre'r Eglwys ac Efail Isaf. Mae'r ffordd wedi gwella mynediad i Brifysgol Morgannwg a datblygiadau diwydiannol lleol, ac mae wedi darparu llwybrau beicio a cherdded ychwanegol ar gyfer dinasyddion. Mae'r Cyngor wedi cynnal proses werthuso ôl-prosiect i ddysgu gwersi o gaffael prosiectau mor fawr, a'r gwerth ychwanegol a gynhyrchwyd er budd cymunedau lleol.

90 Mae amcan y Cyngor o sicrhau bod parciau yn hygyrch i bawb ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda wedi'i hysbysu gan adborth gan ddinasyddion ar yr hyn yr ystyrir ganddynt yn flaenoriaeth bwysig. Mae hwn yn flaenoriaeth barhaus ar gyfer y Cyngor ers y flwyddyn flaenorol, ac mae'r camau gweithredu yn adeiladu ar lwyddiannau gweithgareddau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor wedi cyflawni gwobr y Faner Werdd ar gyfer Parc Cofeb Rhyfel Ynysangharad ac mae wedi cwblhau rhaglen o welliannau arfaethedig i barciau yn yr ardal. Mae bellach yn bwriadu mynd i'r afael â'r ardaloedd o ordyfiant o fewn parciau, gwella'r ffordd y mae'n ymdrin â chwynion, a chyflwyno cod ymarfer ar gyfer parciau. Mae'r Cyngor wedi nodi ei gamau gwella arfaethedig yn glir ac wedi pennu mesurau a thargedau priodol i werthuso ei lwyddiant sy'n cynnwys arolygiadau a boddhad trigolion.

# Beth y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei wneud?

91 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na bawn wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

92 Nid ydym yn ystyried bod angen argymell ymyriad Gweinidogol, ac nid ydym ychwaith yn ystyried y dylid cael archwiliad arbennig nag argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella. Yn hytrach, rydym o'r farn bod angen i'r Cyngor ystyried y cynigion canlynol i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- Datblygu mwy o fesurau canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgarwch ar ei gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau.

**Cynigion newydd**

- adolygu ei flaenoriaethau gwella o ystyried bod llai o adnoddau ar gael; a
- chyhoeddi ei flaenoriaethau gwella a chynlluniau i'w cyflawni yn unol ag amserlenni statudol i sicrhau y gall dinasyddion gael dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio ei weithgarwch arno, pa ganlyniadau buddiol y gallant eu disgwyl, a sut y gallant gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn.

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur Llywodraeth Leol (Mehefin 2009) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.[3]

3 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella gwybodaeth a chynllunio, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol;
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn / allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Rondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Yr Aelodau Cynulliad Etholaethol ar gyfer Rhondda Cynon Taf yw:

- Christine Chapman, Cwm Cynon, y Blaid Lafur
- Leighton Andrews, y Rhondda, y Blaid Lafur
- Jane Davidson, Pontypridd, y Blaid Lafur
- Janice Gregory, Ogwr, y Blaid Lafur

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Canol De Cymru yw:

- Leanne Wood, Plaid Cymru
- Christopher Franks, Plaid Cymru
- David Melding, Plaid Geidwadol Cymru
- Andrew RT Davies, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Rondda Cynon Taf yw:

- Ann Clwyd, Cwm Cynon, y Blaid Lafur
- Chris Bryant, y Rhondda, y Blaid Lafur
- Huw Irranca-Davies, Ogwr, y Blaid Lafur
- Owen Smith, Pontypridd, y Blaid Lafur

Ceir 75 o Gynghorwyr yn Rhondda Cynon Taf sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 46 o'r Blaid Lafur
- 19 o Blaid Cymru
- 6 o gynghorwyr Annibynnol
- 3 o'r Democratiaid Rhyddfrydol
- 1 o'r Blaid Geidwadol

Yn 2008-09, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £509 miliwn, sydd gyfystyr â  £2,174 fesul preswylydd. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £90 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn 2009-10, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Rhondda Cynon Taf oedd £1,213.96 y flwyddyn; bydd hyn yn cynyddu 4.03 y cant i £1,262.94 y flwyddyn ar gyfer 2010-11. Mae 91 y cant o dai Rhondda Cynon Taf yn y bandiau treth gyngor A i D.

## Tîm Rheoli Corfforaethol

Keith Griffiths yw Prif Weithredwr Cyngor Rhondda Cynon Taf. Y Prif Weithredwr yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys:

- Steve Merritt, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol
- Ellis Williams, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a Phlant
- George Jones, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol
- Chris Bradshaw, Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Paul Lucas, Cyfarwyddwr gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyllid

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.rctcbc.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Bronwydd, Y Porth, CF39 9DL.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mis Hydref 2010:

**Caiff y Cyngor ei reoli'n dda ac mae ganddo ddull strategol clir a realistig o wella.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor wedi gwella'n sylweddol o sefyllfa anodd iawn, yn bennaf drwy stiwardiaeth ariannol effeithiol ac agwedd realistig at flaenoriaethau, ac mae mewn sefyllfa dda i wella ymhellach.

- Mae'r Cyngor wedi gwella o sefyllfa ariannol wael iawn, ac mae wedi cyflawni gwelliannau sylweddol o ran gwasanaethau ers 2000.
- Wedi'i ategu gan reolaethau ariannol trylwyr, bellach mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar y cyfan i gefnogi gwelliant.
- Mae dealltwriaeth glir o flaenoriaethau a heriau'r dyfodol yn galluogi'r Cyngor i barhau i wneud gwelliannau.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Ategir arweinyddiaeth gref a dull strategol clir gan gyllid, partneriaethau a staff a reolir yn dda, ond nid yw'r Cyngor yn nodi nac yn gwerthuso canlyniadau yn gyson.

- Mae arweinyddiaeth gref ac unedig yn parhau i lywio trefniadau rheoli ariannol cadarn sy'n ategu blaenoriaethau'r Cyngor, ond mae'r diwylliant gwleidyddol yn parhau i fod yn wrthwynebus.
- Mae dull strategol clir a gofalus o weithredu yn seiliedig ar flaenoriaethau realistig a dull o weithio mewn partneriaeth sy'n effeithiol ar y cyfan.
- Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o wybodaeth reoli, ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'i staff ar y cyfan, er nad yw'n nodi nac yn gwerthuso pob canlyniad yn effeithiol eto.
- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ei ddull o reoli ei ystad ac yn defnyddio TGCh i gefnogi gwelliant.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr. Gellid eu gwella ymhellach drwy ychwanegu amserlenni i'r arweinwyr wedi'u croesgyfeirio i gynnwys ffeiliau;
- gweithredwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig yn gywir mewn perthynas â'r Fenter Cyllid Preifat ac mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i baratoi at weithredu IFRS yn 2010-11;
- gellid gwella'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar wybodaeth mewn perthynas â phob cydberthynas er mwyn llywio'r nodyn yn y cyfrifon ar drafodion partïon cysylltiedig;
- paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig wedi'u datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol;
- cydymffurfiodd yr Archwiliad Mewnol â safonau CIPFA, er bod peth llithriant yn ei gynllun yn sgîl prinder staff ac aseiniadau nas cynlluniwyd.

Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2011 yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-2010.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 15 Tachwedd 2010 ar ôl datrys mater a oedd yn ymwneud â'r gwariant yr aed iddo gan ysgol ar achos cyfreithiol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Yn gywir

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Nodir 11 o amcanion gwella'r Cyngor yn fanwl mewn adroddiad i'r Cyngor ar 21 Ebrill 2010  y gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn www.rctcbc.gov.uk.

Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- **Addysg** - addysg o'r radd flaenaf i bawb.
- **Gwasanaethau Gofal Stryd a'r Amgylchedd Naturiol** - bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach.
- **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - diogelu pob plentyn a pherson ifanc a gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n agored i niwed.
- **Cynnal Annibyniaeth Pobl** - helpu oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol.
- **Gorfodi a Rheoleiddio** - rheoli'r economi hwyrnos yn rhagweithiol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- **Adfywio ein Cymunedau:**

  Adfywio Ffisegol

  - Gwella canol trefi, adfywio tir diffaith ac ehangu'r dewis o dai a fforddiadwyedd tai i bawb.

  Adfywio Cymdeithasol

  - Mentrau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl, help gyda chyflogadwyedd, hyfforddiant sgiliau, mynd i'r afael ag anfanteision y farchnad lafur.
- **Rheoli ein Hasedau** - paratoi ein hunain ar gyfer y dyfodol.
- **Gwell Cysylltiadau â Chwsmeriaid** - canolbwyntio ar y cwsmer.
- **Manteisio i'r Eithaf ar Gyfleoedd Partneriaeth** - gwneud mwy ar gyfer cymunedau lleol drwy gydweithio.
- **Cynllunio Ariannol Tymor Canolig** - byw'n ddarbodus.
- **Cyfathrebu** - codi ymwybyddiaeth a chyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynllluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol